**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

# BIL OEDOLION TERFYNOL SÂL (DIWEDD OES)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru mewn perthynas ag unrhyw Fil Aelod Preifat y DU, sydd o dan ystyriaeth yn Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Hydref 2024*.* Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 9 Ebrill 2025.

3. Cwblhaodd y Bil y cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mehefin 2025 a'r Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn yn cwmpasu'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod Adrodd. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil ar gael yma: Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

   **Gwelliannau**

4. Cyflwynwyd 111 o welliannau nad ydynt yn welliannau'r Llywodraeth rhwng 27 Mawrth a 16 Mehefin 2025. Dechreuodd y cyfnod Adrodd ar 16 Mai gyda'r dadleuon ar gyfer y cyfnod hwnnw yn Nhŷ'r Cyffredin yn cael eu cynnal ar 13 a 20 Mehefin. Nid yw'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae'r holl welliannau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Bil.

5. Disgrifir y gwelliannau sy'n gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ym mharagraffau 12 i 15 isod.

## Amcan(ion) y Polisi

6. Mae a wnelo amcan y polisi â dewis ar ddiwedd oes, i ganiatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn niwtral ynglŷn â'r mater, gan nodi'r confensiwn hirsefydlog ar gyfer materion cydwybod. Dyroddwyd canllawiau i Weinidogion Llywodraeth y DU ar 3 Hydref 2024 yn nodi y bydd Llywodraeth y DU felly'n parhau i fod yn niwtral ynglŷn â hynt y Bil a'r mater marw â chymorth.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Mae'r Bil yn Fil Aelod Preifat a noddir gan Kim Leadbeater, yr Aelod Seneddol dros Spen Valley.

8. Ei nod yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

9. Ymhlith ei ddarpariaethau, mae'r Bil yn gwneud y canlynol:

i. nodi'r amgylchiadau lle y gellir darparu cymorth i berson ddod â'i fywyd ei hun i ben. Rhaid i'r person fod yn derfynol sâl (gweler 6b isod), bod â'r galluedd angenrheidiol i wneud y penderfyniad i ddod â'i fywyd ei hun i ben (gweler 6c isod), bod yn 18 oed neu'n hŷn, bod yn byw fel arfer yng Nghymru a Lloegr a bod wedi gwneud hynny ers 12 mis o leiaf, a bod wedi'i gofrestru fel claf gyda phractis meddyg teulu yng Nghymru neu Loegr.

ii. diffinio bod person yn 'derfynol sâl' pan fydd ganddo salwch neu glefyd sy'n anochel gynyddol na ellir ei wrthdroi drwy driniaeth, a rhaid disgwyl yn rhesymol hefyd y bydd y person yn marw o fewn 6 mis o ganlyniad.

iii. ei gwneud yn glir bod y prawf, ynghylch a oes gan berson alluedd i wneud penderfyniad ac i ddod â'i fywyd ei hun i ben, i'w benderfynu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

iv. cadarnhau y bydd y Prif Weinidog yn penodi Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol, y bydd rhaid ei fod yn dal, neu ei fod wedi dal, swydd fel barnwr yn y Goruchaf Lys, y Llys Apêl, neu'r Uchel Lys. Prif swyddogaethau'r Comisiynydd fydd bod yn gyfrifol am ddogfennau sy'n dod i law o dan y Ddeddf, gwneud penodiadau i restr o bersonau sy'n gymwys i eistedd ar Baneli Adolygu Marw â Chymorth, cyfeirio achosion at baneli adolygu, penderfynu ar geisiadau i ailystyried penderfyniadau paneli a monitro gweithrediad y Ddeddf hon ac adrodd yn flynyddol arni.

v. ei gwneud yn glir nad oes unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig o dan unrhyw ddyletswydd i godi'r pwnc darparu cymorth gyda pherson, yn unol â'r Ddeddf hon. Fodd bynnag, nid yw hynny'n atal ymarferydd meddygol cofrestredig rhag arfer ei farn broffesiynol i benderfynu a yw'n briodol trafod y mater gyda chlaf, a phryd y mae'n briodol gwneud hynny.

vi. ei gwneud yn ofynnol i'r person, sy'n dymuno cael cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben, wneud datganiad i'r perwyl hwnnw. Rhaid i'r person lofnodi'r datganiad, a rhaid iddo gael ei dystio gan y meddyg cydgysylltu a pherson arall. Rhaid i'r ddau ohonynt weld y datganiad yn cael ei lofnodi.

vii. cadarnhau, yn dilyn y datganiad, fod rhaid i'r meddyg cydgysylltu a wnaeth dystio i'r datganiad cyntaf gynnal asesiad cyntaf o'r person sy'n gwneud y datganiad.

viii. peri bod angen ail asesiad gan feddyg annibynnol, 7 diwrnod ar ôl yr asesiad cyntaf i ganiatáu cyfnod o adlewyrchu. Rhaid i'r meddyg annibynnol gyflwyno adroddiad am yr asesiad, sy'n nodi a yw'n fodlon bod yr holl ofynion wedi'u bodloni.

ix. ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyfeirio achos y person at Banel Adolygu Marw â Chymorth i benderfynu ar gymhwysedd y person i gael cymorth, yn amodol ar yr holl asesiadau ac adroddiadau perthnasol yn dod i law ac yn nodi bod yr holl ofynion wedi'u bodloni.

x. caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath.

xi. ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd fonitro gweithrediad y Ddeddf, ymchwilio i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Ddeddf y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn ei gyfeirio at y Comisiynydd ac adrodd i'r awdurdod ar hynny, a chyflwyno adroddiad blynyddol i bob awdurdod cenedlaethol priodol ynghylch gweithrediad y Ddeddf. Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru (ymhlith eraill).

xii. ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (os byddant yn gwneud rheoliadau am wasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru) wneud darpariaeth fel y bo'n briodol yn eu barn hwy i sicrhau, pan fo person yng Nghymru sy'n dymuno cael cymorth yn nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu ac adroddiadau yn Gymraeg; ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gymryd camau rhesymol i sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu gan y Comisiynydd a'r paneli yn Gymraeg a bod aelodau paneli yn siarad Cymraeg.

xiii. ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu cyffuriau neu sylweddau eraill at ddibenion y Ddeddf.

xiv. cadarnhau nad yw person yn euog o drosedd yn rhinwedd darparu cymorth i berson ddod â'i fywyd ei hun i ben, yn unol â'r Ddeddf.

## Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

10. Ers i'r memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi ar 9 Ebrill 2025, mae'r Bil wedi pasio'r cyfnod Adrodd, a ddechreuodd ar 16 Mai ac a barhaodd ar 13 a 20 Mehefin 2025. Pasiodd hefyd y Trydydd Darlleniad ar 20 Mehefin 2025. Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mehefin 2025.

11. Yn ystod y cyfnod Adrodd, cytunwyd ar y gwelliannau canlynol, a oedd yn hepgor darpariaethau o'r Bil y gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â hwy yn flaenorol ar 9 Ebrill 2025:

i. Gwelliant 89
Roedd y gwelliant hwn yn hepgor cymal 37 (Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf);
ii. Gwelliant 90
Roedd y gwelliant hwn yn hepgor cymal 47 (Darparu gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg);
iii. Gwelliant 95
Roedd y gwelliant hwn yn hepgor is-adran (6) o gymal 58 (cymal 54 yn wreiddiol) (Cychwyn), a roddodd bŵer i Weinidogion Cymru ddod â darpariaethau o'r Ddeddf i rym, drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, nas dygwyd i rym gan is-adran (1) o'r cymal hwnnw.

12. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n adeiladol gyda swyddogion Llywodraeth y DU a Noddwr y Bil i sicrhau bod buddiannau Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r Bil, a bod y setliad datganoli yn cael ei barchu yn ystod proses y Bil. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd technegol wythnosol.

**Darpariaethau y cytunwyd arnynt i'r Bil yn y cyfnod Adrodd y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae ein hasesiad o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 a 20 Mehefin wedi dod i'r casgliad bod y prawf yn Rheol Sefydlog 29 wedi'i fodloni a bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn cysylltiad â'r cymal 40 newydd (Gwelliant NC20), y cymal 51 newydd (ac eithrio is-adran (4)) (Gwelliant NC21) a chymal 58(5) (fel y'i diwygiwyd gan welliant 94 – cymal 54(5) yn wreiddiol). Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau hyn yn y Bil sy'n bodloni'r prawf o dan RhS 29.2(iii) ac sydd felly'n sbarduno'r angen am gydsyniad. Pan fydd y ddarpariaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, nodir gweithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer hefyd.

14. **Cymal 40 Newydd (Gwelliant NC20) – Canllawiau ynghylch gweithredu'r Ddeddf.** Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yng Nghymru, ynghylch materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig cyn dyroddi canllawiau, gan gynnwys Prif Swyddog Meddygol Cymru. Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys canllawiau sy'n ymwneud â materion y caniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau amdanynt. Yn yr un modd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â phersonau penodedig, gan gynnwys Prif Swyddog Meddygol Cymru, cyn dyroddi unrhyw ganllawiau o dan y cymal hwn, a chyda Gweinidogion Cymru os bydd unrhyw ran o'r canllawiau yn ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r cymal

hwn yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi unrhyw ganllawiau y maent yn eu dyroddi ac i roi sylw i faterion penodedig wrth lunio canllawiau.

15. **Cymal 51 Newydd (ac eithrio is-adran (4)) (Gwelliant NC21) – Darpariaeth am y Gymraeg.** Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan adran 42 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd) ynghylch gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol yng Nghymru, i wneud unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol at ddibenion sicrhau, pan fo person yng Nghymru sy'n dymuno cael cymorth i ddod â'i fywyd ei hun i ben yn nodi ei fod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg ("person perthnasol"), y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu ac adroddiadau yn Gymraeg. Mae'r cymal hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod ymgynghori yn digwydd rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan adrannau penodedig o'r Ddeddf sy'n pennu bod ffurf datganiad cyntaf neu ail ddatganiad, adroddiad am yr asesiad cyntaf neu'r ail asesiad o berson, neu ddatganiad terfynol, i fod yn Gymraeg (yn ogystal â Saesneg).

16. **Cymal 58(5) (fel y'i diwygiwyd gan welliant 94 – cymal 54(5) yn wreiddiol)) – Cychwyn**
Mae cymal 58(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddod ag adrannau 42(1) a (2) a 51(2) a (3) o'r Ddeddf i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag a bennir drwy reoliadau. Mae rheoliadau i'w gwneud drwy Offeryn Statudol. Nid oes unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd yn gymwys wrth arfer y pŵer hwn. Yn flaenorol, roedd y ddarpariaeth hon yn darparu nad oedd pwerau cychwyn yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf a'r dyddiad olaf un o bedair blynedd i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym yn gymwys o ran Cymru. Yn dilyn y gwelliant y cytunwyd arno, mae'r darpariaethau hynny'n gymwys o ran Cymru.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

17. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei safbwynt ynghylch a yw'n credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn fel y'i diwygiwyd yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, mae wedi cydnabod bod rhai cymalau yn torri ar draws materion datganoledig. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn a byddwn yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ac i asesu'r safbwynt hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

18. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 9 uchod, fy asesiad yw bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal 40 newydd (Gwelliant NC20), y cymal 51 newydd (ac eithrio is-adran (4)) (Gwelliant NC21) a chymal 58(5) (fel y'i diwygiwyd gan welliant 94 – cymal 54(5) yn wreiddiol).

**Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

19. Nod y Bil hwn yw caniatáu i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywydau eu hunain i ben, a chael cymorth o'r fath, yn ddarostyngedig i fesurau diogelu ac amddiffyniadau.

20. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn cyflawni hyn drwyddo yw drwy ddiwygiadau i Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu gan Atodlen 7B.

21. Mae'r cymal 40 newydd (Gwelliant NC20), y cymal 51 newydd (ac eithrio is-adran (4)) (Gwelliant NC21) a chymal 58(5) (fel y'i diwygiwyd gan welliant 94 – cymal 54(5) yn wreiddiol)) yn gwneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru neu sy'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru ac sydd felly'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**Goblygiadau Ariannol**

22. Mae'r goblygiadau ariannol wedi'u nodi yn asesiad effaith Llywodraeth y DU a amcangyfrifodd y costau ar gyfer Cymru a Lloegr, heb unrhyw ddadansoddiad penodol ar gyfer Cymru:

| Categori | Cost amcangyfrifedig |
|---|---|
| Ymgyrch addysg gychwynnol i sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r newidiadau a'r hyn y maent yn ei olygu | £550k – £850k |
| Hyfforddiant | £1.23m – £11.5m Blwyddyn 1 (hanner blwyddyn)<br>£1.53m – £9.71m Blwyddyn 10 |
| Amser staff i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol | £412k – £1.98m Blwyddyn 1 (hanner blwyddyn)<br>£2.62m – £11.5m Blwyddyn 10 |
| Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol a chymeradwyaeth y panel | £10.9m – £13.6m y flwyddyn |

23. Amcangyfrif bras iawn o amser staff i ddarparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol wedi'i gyfrifo yn ôl cyfran y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru yw:

**£26k – £123k** ym Mlwyddyn 1 (hanner blwyddyn) a

**£163k – £716k** ym Mlwyddyn 10

24. Amcangyfrifodd yr Asesiad Effaith nifer yr ymgeiswyr a marwolaethau â chymorth yng Nghymru fel a ganlyn:

- Y nifer amcangyfrifedig o ymgeiswyr yng Nghymru ym Mlwyddyn 1 (sef hanner blwyddyn[1]) yw **17 – 80**
- Y nifer amcangyfrifedig o ymgeiswyr yng Nghymru ym Mlwyddyn 10 yw **106 – 462**
- Y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru ym Mlwyddyn 1 (sef hanner blwyddyn) yw **10 – 48**
- Y nifer amcangyfrifedig o farwolaethau â chymorth yng Nghymru ym Mlwyddyn 10 yw **63 – 277**

25. Byddwn yn parhau i ystyried unrhyw oblygiadau ariannol posibl wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU.

## Casgliad

26. Mae Llywodraeth Cymru yn niwtral ynglŷn â'r mater marw â chymorth yn wirfoddol, ac o ganlyniad i hynny ynglŷn â'i briodoldeb a'i gynnwys mewn Bil gan y DU.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**4 Gorffennaf 2025**

[1] Rhagdybiaeth allweddol yw y byddai gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr ar gael o fis Hydref 2029 ymlaen, sy'n golygu mai hanner blwyddyn fyddai Blwyddyn gweithredu 1;